



**UMPA**  
**Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**  
**24 Mawrth 2016**  
**Ystafell Bwyllgor**

---

**Presennol:**

|                           |   |
|---------------------------|---|
| Lewis Donnelly (LD)       | – Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr              |
| Hanna Medi Merrigan (HMM) | – Materion Cymreig a Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr      |
| Ieuan Gregory (IG)        | – Swyddog Lles Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr           |
| Kelly Keat (KK)           | – Swyddog Gweithgareddau Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr |
| Lauren Marks (LM)         | - Swyddog Addysg UMPA ac Ymddiriedolwr                  |
| Sue Parnell               | -Ymddiriedolwr Allanol UMPA                             |

**Skype:**

|                   |                                   |
|-------------------|-----------------------------------|
| Estelle Hart (EH) | - Ymddiriedolwr Allanol UMAber    |
| Peter Curran (PC) | – Ymddiriedolwr Allanol UMAber    |
| Sam Bache (SB)    | - Ymddiriedolwr Israddedig UMAber |

**Yn gwasanaethu:**

|                     |  |
|---------------------|--|
| Daryl Ormerod (DO)  | - Prif Weithredwr dros-dro UMPA                                  |
| Catrin Hopkins (CH) | - Swyddog Cyllid UMPA (yn bresennol ar gyfer yr adran ar gyllid) |
| Annmarie Evans (AE) | - Cynorthwydd Gweithredol i Fwrdd UMPA (yn cymryd cofnodion)     |

**GWEINYDDIAETH Y CYFARFOD**

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

|                     |   |
|---------------------|---|
| Dan Francis (DF)    | – Dirprwy Brif Weithredwr dros-dro UMPA |
| Alastair Wager (AW) | - Ymddiriedolwr Ôl-raddedig UMPA        |

**2. Datganiadau o Fuddiannau**

Dim

**3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 28 Ionawr fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

**Cymeradwywyd**

**4. Materion yn Codi**

Ymdriniwyd ag unrhyw faterion sy'n codi yn yr eitemau ar yr agenda.

**Nodwyd**

## **STRATEGAETH**

### **5. Cyllid: Cyfrifon Rheolaeth**

Nododd CH bod y Cyfrifon Rheolaeth hyd at Chwefror 2016 yn dangos diffyg ariannol o £108k yn erbyn y targed yn y gyllideb. Esboniodd CH eu bod wedi cael y dasg o chwilio am gyflenwyr rhatach ar gyfer y safleoedd adwerthu a bwyd. Aeth CH ymlaen i esbonio mai bargeinion brechdanau sy'n gyfrifol am ein gwerthiant mwyaf, ac elw bach iawn sy'n perthyn i'r rhain.

#### **Nodwyd**

#### **Ail-ddarogan y Gyllideb hyd Ddiwedd y Flwyddyn**

Esboniodd CH y byddai unrhyw arian grant heb ei wario'n cael ei gynnwys yn ôl yn ein cyllideb ar gyfer diwedd y flwyddyn.

#### **Nodwyd**

Diolchodd PC i CH am y ffigurau a ddarparwyd, ond nododd ei fod yn gobeithio mai'r sefyllfa waethaf posib yw'r ffigurau hyn, ac y byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau y byddai'r ffigurau'n cael eu gwella.

Esboniodd DO bod y Brifysgol yn ymwybodol o'r ffigurau a gaiff eu rhagweld, ond maent yn awyddus i'n cefnogi gydag ymagwedd hir-dymor at gyllideb iachach.

#### **Nodwyd**

Hysbysodd CH y Bwrdd bod gwerth 3 blynedd o adroddiadau blynyddol wedi cael eu cadarnhau a'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn Elusennau.

#### **Nodwyd**

### **6. Canlyniadau'r Arolwg Staff**

Esboniodd DO bod yr Arolwg Staff drwy UCM wedi cael ei gwblhau eto eleni, a bydd yn parhau am y flwyddyn neu ddwy nesaf. Esboniodd ei fod yn dangos pryder amlwg o fewn y tîm, ond hefyd rhagolygon ar gyfer dyfodol mwy disglair. Aeth ymlaen i esbonio nad yw'r broblem fwyaf o unrhyw syndod, a bod anawsterau diwylliannol gwirioneddol o fewn tîm y staff; mae angen i'r Prif Weithredwr newydd roi blaenoriaeth i hyn. Esboniodd bod rhan o'r ymddygiad/diwylliant wedi bod o ganlyniad i'r amgylchedd strwythurol ac anghysondebau o ran Adnoddau Dynol. Nid yw amcanion y staff wedi bod yn ddigon clir na chadarn; ond mae'r pethau hyn yn cael eu datrys dan y Rhaglen Newid, ac mae digon o fomentwm i barhau i fynd i'r afael â hyn.

#### **Nodwyd**

Diolchodd SP i DO am ei waith ar hyn hyd yma, ac esboniodd ei bod yn teimlo y caiff llawer o'r materion hyn eu datrys gyda'r newidiadau. Hefyd cynigiodd SP rywfaint o Ddatblygiad Arweinyddiaeth am ddim, a bydd yn trafod hyn ar wahân gyda DO.

#### **Nodwyd**

## **7. Adroddiad y Prif Weithredwr (cyfrinachol)**

Cyflwynodd DO grynodedb o'r adroddiad a gyflwynodd o'r blaen. Roedd yn ymdrin â chynnydd ar gyfer pob un o'r Amcanion, y diweddaraf ar Weithgareddau/Cyraeddiadau UMAber, Llywodraethiant a Staffio. Aeth DO ymlaen i esbonio bod DF wedi bod yn hanfodol bwysig mewn cynorthwyo â'r gwaith a wnaed. Hefyd diolchodd i DF ac UCM am eu holl gefnogaeth.

### **Amcan 1 - Darparu arweinyddiaeth gyfamserol ar gyfer tîm staff UMAber, gan gynnwys gweithredu fel rheolwr llinell ar gyfer y rheiny mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol amdanynt.**

- Mae cyfarfodydd Arweinyddiaeth Misol wedi cael eu sefydlu
- Mae sesiwn dal-i-fyny ar gyfer y Prif Weithredwr a'r Swyddogion, bob pythefnos, wedi cael ei sefydlu
- Hefyd trefnir cyfarfodydd staff yn rheolaidd, sy'n annog cyfathrebu ymysg staff
- Caiff e-byst eu hanfon allan yn rheolaidd at bob aelod staff, gan eu darparu â'r diweddaraf ynglŷn ag unrhyw drafodaethau/penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd Ymddiriedolwyr ac Arweinyddiaeth
- Mae hyfforddwr allanol sy'n arbenigo mewn Datblygiad Arweinyddiaeth wedi cynnal sesiwn ar gyfer y tîm gyda chanlyniadau anhygoel - y gobaith yw y gellir parhau â hyn.

### **Amcan 2 - Gweinyddu proses ar gyfer recriwtio a sefydlu Prif Weithredwr parhaol.**

- Mae hyn wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus drwy gwmni recriwtio Peridot, er mwyn sicrhau penodiad credadwy a chyfreithlon. Roedd aelodau'r panel yn cynnwys John Grattan (Dirprwy Is-ganghellor gweithredol) ac UCM, oedd yn rhoi hyder i ni yn ein penodiad.
- Mae cynllun sefydlu wedi cael ei lunio, yn ogystal â 2 ddiwrnod ar gyfer trosglwydo'r awenau, cyn dyddiad dechrau swyddogol y Prif Weithredwr.

### **Amcan 3 - Sefydlu proses, gan gynnwys amserlen ddrafft ar gyfer dyfeisio a gweithredu cynllun strategol newydd, gan ystyried cydweithredu ag UM eraill sy'n ymgymryd ag ymarferiad o'r fath.**

- Mae'r cam ymchwil wedi dechrau gydag UCM, fydd yn cynnal grwpiau ffocws o fyfyrwyr wedi'u targedu erbyn diwedd Ebrill.
- Mae arolwg o randdeiliaid hefyd wedi cael ei sefydlu, a chaiff ei gynnwys yn y canlyniadau terfynol sydd i'w cwblhau erbyn dechrau Mai.
- Caiff canfyddiadau'r ymchwil eu cyflwyno i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arweinyddiaeth, a bwriedir cynnal y cam drafftio yn yr haf neu'r hydref.

### **Amcan 4 - Adolygu, argymell, ac yn y pen draw gweithredu'r datrysiad y cytunwyd arno ar gyfer materion dyfodol cyllidol UMAber; mae hyn i gynnwys ail-ffocysu'r tîm gwasanaethau myfyrwyr.**

- Ymdriniwyd â'r adran hon dan Eitem 8 ar yr Agenda, Rhaglen Newid.

### **Amcan 5 - Paratoi cyllideb ar gyfer 2016/17 sy'n adlewyrchu cynllun cyllidol fydd yn cwrdd â tharged arian wrth gefn yr Ymddiriedolwyr o fewn amserlen y cytunwyd arni.**

- Fel gydag Amcan 4, ymdriniwyd â hyn fel rhan o'r Rhaglen Newid.

Hefyd hysbysodd DO y Bwrdd o'n cydymffurfiaid â'r Cod Gweithredu mae Prifysgol Aberystwyth yn ei reoleiddio parthed disgwyliadau Deddf Addysg 1994. Aeth ymlaen i esbonio ei fod wedi bod yn gweithio gyda Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol, i sefydlu system ar gyfer monitro cydymffurfiaeth. Er bod nifer o feiau wedi dod i'r golwg, bydd y gwaith hwn yn parhau gyda'r Prif Weithredwr er mwyn sicrhau cydymffurfiaid UMAber.

### **Nodwyd**

## **8. Rhaglen Newid (Cyfrinachol)**

Darparodd DO y Bwrdd â'r diweddaraf ar y Rhaglen Newid a gymeradwywyd o'r blaen, ac esboniodd ers hynny bod cryn lawer o waith wedi cael ei wneud ar y gyllideb. Mae cyddrafodaethau wedi dechrau ynglŷn â'r agwedd ymarferol; mae strwythur adolygedig ar gyfer y staff wedi cael ei greu ar gyfer cymeradwyaeth. Gofynnodd am gadarnhad gan yr Ymddiriedolwyr ar gyfer parhau â'r Rhaglen Newid ac am gymeradwyaeth ar gyfer y gyllideb.

**Cymeradwywyd**

### **LLYWODRAETHIANT**

## **9. Recriwtio'r Prif Weithredwr**

Hysbysodd LD y Bwrdd bod Trish McGrath, Pennaeth Llais Myfyrwyr ym Manceinion, wedi derbyn swydd Prif Weithredwr. Bydd Trish yn dechrau ddydd Llun 25 Ebrill, ac mae ganddi ddealltwriaeth dda ynglŷn â'r Rhaglen Newid. Dywedodd hefyd fod ganddo bob hyder y gall Trish lenwi'r rôl hon, a gofynnodd i'r Bwrdd gynnig eu cefnogaeth iddi.

**Nodwyd**

## **10. Canlyniad y refferendwm**

Hysbyswyd y Bwrdd ynglŷn â deilliannau'r refferendwm: A ddylai Undeb y Myfyrwyr werthu pob papur-newydd?

Esboniodd LD fod polisi wedi cael ei basio yn 2013 gan Gorff y Myfyrwyr i beidio gwerthu papurau-newydd oedd yn cynnwys deunydd tebyg i 'dudalen 3'. Gofynnwyd am refferendwm i ganiatáu i'r Undeb werthu pob papur-newydd. Enillodd yr ymgyrch 'ie' fwyafrif o'r pleidleisiau, felly bydd y siop yn treialu gwerthiant.

**Nodwyd**

## **11. Polisiâu o Gyngor y Myfyrwyr**

Hysbysodd LD y Bwrdd bod cynnig wedi cael ei basio ar gyfer talu Cyflog Byw Cenedlaethol i holl staff yr undeb, beth bynnag fo'u hoedran, ac y dylid ei fabwysiadu gan UMAber. Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr bod DO yn ymgymryd ag adolygiad ac yn cyflwyno'r diweddaraf ar gyfer y Bwrdd yng nghyfarfod mis Mai.

**Gweithredu - DO**

## **12. Canllawiau UCM ar gyfer Refferendwm yr UE**

Darparodd DO y Bwrdd â chanllawiau i helpu eu clybiau a chymdeithasau i ddeall y gyfraith a rheoliadau sy'n perthyn i unrhyw weithgareddau yn y cyfnod sy'n arwain i fyny ar Refferendwm yr UE. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd bod gweithgaredd mewn/allan wedi cael ei drefnu gan un o'r myfyrwyr. Nododd DO ein bod ni'n cefnogi ein myfyrwyr gyda thrafodaethau, ond rhaid i ni fod yn ymwybodol o unrhyw oblygiadau cyfreithiol.

**Nodwyd**

## **13. Dyddiad ac Amser y Cyfarfod nesaf:**

Esboniodd Peter Curran y byddai'n hoffi gallu mynychu'r cyfarfod nesaf, felly gofynnodd ein bod ni'n edrych ar y posibilrwydd o newid y dyddiad i ddydd Gwener 20 Mai. Bydd AE yn cadarnhau dyddiadau â'r Bwrdd.

**Nodwyd**

**Gorffennodd LD y cyfarfod drwy ddiolch ar ran y Bwrdd am yr holl waith caled a wnaed gan DO yn ystod cyfnod mor anodd, a dymunodd bob llwyddiant iddo yn ei rôl newydd.**

DRAFT